

## Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 09 Chwefror 2005

**R** – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

**W** – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)

### ***Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon***

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar raglen y Celfyddydau y Tu Allan i Gaerdydd a sut y mae cyrff yn y Canolbarth a'r Gorllewin wedi elwa ohoni. (WAQ41436)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y theatr Gymraeg yn y Canolbarth a'r Gorllewin. (WAQ41438)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr hyn a wariwyd ar raglen y Celfyddydau y Tu Allan i Gaerdydd ym mhob blwyddyn ers ei gweithredu. (WAQ41437)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn nodi faint o arian o raglen y Celfyddydau y Tu Allan i Gaerdydd sydd wedi'i wario yn y Canolbarth a'r Gorllewin ers ei gweithredu. (WAQ41439)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y prosiectau y mae rhaglen y Celfyddydau y Tu Allan i Gaerdydd wedi'u cynorthwyo yn y Canolbarth a'r Gorllewin ers ei gweithredu. (WAQ41440)

### ***Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth***

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Pa grantiau sydd ar gael, os oes rhai ar gael, i grwpiau cymunedol/gwirfoddol hybu twristiaeth yn eu hardal. (WAQ41409)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bwysigrwydd a chyfraniad Canolfannau Croeso i'r diwydiant twristiaeth a phrofiadau ymwelwyr â Chymru. (WAQ41410)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A yw'r pecyn gwerth £42m a gyhoeddwyd gan y Gweinidog dros Ynni yn San Steffan ar gyfer cynorthwyo datblygiad technoleg tonnau a thechnoleg llanw a thrai o gymorth i Gymru, ac os ydyw, ym mha ffordd. (WAQ41411)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog

wedi'u cael ynghylch trosglwyddo pwerau dros brosiectau ynni mawr o San Steffan i Gymru, ac a wnaiff roi manylion ynghylch y trafodaethau hynny ac ynghylch pryd y rhagwelir y byddant yn cael eu trosglwyddo. (WAQ41412)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gyfarfodydd y mae'r Gweinidog wedi'u cael â'i gymheiriaid yn San Steffan ynghylch trosglwyddo pwerau dros brosiectau ynni mawr, ac a wnaiff roi manylion y cyfarfodydd hynny. (WAQ41413)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drosglwyddo pwerau dros brosiectau ynni mawr o San Steffan i Gymru. (WAQ41414)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â'r Gweinidog Ynni yn San Steffan ynghylch technoleg tonnau a thechnoleg llanw a thrai, ac a wnaiff ddatgelu manylion unrhyw drafodaethau. (WAQ41415)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru):** Pryd y disgwylir i'r gwelliannau a'r estyniadau y bwriedir eu gwneud i Orsaf Stryd y Frenhines gael eu cwblhau. (WAQ41423)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru):** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i rannu'r cyllid o San Steffan ar gyfer y gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru. (WAQ41419)

### ***Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes***

**John Griffiths (Newport East):** Faint o blant o oed ysgol gynradd yng Nghymru sy'n derbyn eu haddysg mewn ysgolion preifat a pha ganran yw hynny o gyfanswm y plant o oed ysgol gynradd yng Nghymru. (WAQ41418)

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** Faint o blant o oed ysgol uwchradd yng Nghymru sy'n derbyn eu haddysg mewn ysgolion preifat a pha ganran yw hynny o gyfanswm y plant o oed ysgol uwchradd yng Nghymru. (WAQ41430)

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** Faint o ysgolion cynradd preifat sy'n bodoli yng Nghymru a pha ganran yw hynny o gyfanswm yr ysgolion cynradd yng Nghymru. (WAQ41431)

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** Faint o ysgolion uwchradd preifat sy'n bodoli yng Nghymru a pha ganran yw hynny o gyfanswm yr ysgolion uwchradd yng Nghymru. (WAQ41432)

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** Faint o ysgolion cynradd preifat Cymru sy'n ymwneud mewn partneriaethau â'r sector ysgolion gwladol a beth y mae'r trefniadau hyn yn eu cynnwys. (WAQ41433)

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** Faint o ysgolion uwchradd preifat Cymru sy'n ymwneud mewn partneriaethau â'r sector ysgolion gwladol a beth y mae'r trefniadau hyn yn eu cynnwys. (WAQ41434)

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** Pa gamau sy'n cael eu cymryd, ac a fydd yn cael eu cymryd, er mwyn annog ysgolion preifat yng Nghymru i ymwneud mewn partneriaethau â'r sector ysgolion gwladol. (WAQ41435)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru):** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd er mwyn cynyddu'r cyfleusterau ar gyfer clybiau ieuenctid yng Nghymru. (WAQ41420)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru):** Beth yw'r amserlen ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth o therapyddion lleferydd Cymraeg eu hiaith i ddisgyblion. (WAQ41421)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru):** Beth yw'r amserlen ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth o staff a all addysgu plant ag anghenion addysgol arbennig drwy gyfrwng y Gymraeg. (WAQ41422)

### ***Gofyn i'r Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol***

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfraddau MRSA yn ysbyty Nevill Hall. (WAQ41416)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sefyllfa MRSA yng Nghymru. (WAQ41417)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A fydd y Gweinidog yn cynnal ymchwiliad i'r adroddiadau ynghylch pryderon am ddiogelwch cleifion yn ysbyty'r Eglwys Newydd, ac a fydd yn cyhoeddi'r holl wybodaeth a gesglir yn ystod yr ymchwiliad hwnnw, yn ogystal â'r wybodaeth sydd ganddo eisoes ar y mater hwn. (WAQ41424)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw newidiadau ym mynychder achosion o glwy'r pennau yn ystod y 12 mis diwethaf, gan gynnwys nifer yr achosion mewn ardaloedd penodol. (WAQ41425)

### ***Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio***

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A yw'r Gweinidog yn bwriadu dilyn esiampol Gweithrediaeth yr Alban a darparu gwres canolog am ddim i bobl hyn. (WAQ41426)

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** Pa asesiadau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal o'r cynnydd mewn marwolaethau sy'n gysylltiedig ag oerfel. (WAQ41427)

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i ddileu'r elfen

prawf modd o'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref, ac a wnaiff egluro pam fod angen prawf modd ar gyfer y budd-dal hwn. (WAQ41428)

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion y symiau a dalwyd bob blwyddyn ers 1997 ar gyfer pob budd-dal sy'n ymwneud â thai. (WAQ41429)